

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



2. Rheoli eich sefydliad

2.1 Datblygu cynllun strategol

Beth yw cynllunio strategol?

Mae cynllunio strategol yn ymwneud â chynllunio datblygiad tymor hir eich sefydliad, fel rheol 3 i 5 mlynedd ymlaen llaw. Mae'n ymwneud â rhagweld a rheoli newid.

Beth yw pwrpas cynllunio?

Efallai eich bod yn teimlo eich bod yn rhy brysur nawr i gynllunio ar gyfer y dyfodol, ond peidiwch â meddwl bod pawb yn eich sefydliad yn rhannu'r un syniad â chi ynglŷn â beth y dylech fod yn ei wneud a sut. A pheidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd amgylchiadau allanol yr un fath bob amser. Dylech gynllunio fel bod pob un ohonoch yn gwybod i ba gyfeiriad yr ydych yn mynd, a sut i ganfod y ffordd orau o fynd â chi yno. Mae'n bwysig felly bod eich proses gynllunio'n arwain at ryw fath o gynllun ysgrifenedig, sy'n dangos sut rydych yn bwriadu symud ymlaen i gyflawni eich amcanion dros gyfnod o amser.

Mae cynllunio'n eich helpu i nodi:

- Pwrpas clir i'ch sefydliad;
- prif amcanion eich gwaith;
- eich blaenoriaethau;
- pa adnoddau sydd eu hangen arnoch – e.e. arian, personél, lle gweithio, sgiliau, offer – a sut i'w defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- ffyrdd o gael gafael ar yr adnoddau angenrheidiol;
- sut i ragweld newid ac osgoi rheoli argyfwng;
- sut i fonitro a gwerthuso eich gwaith;
- sut i fod yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol.

Pryd mae angen cynllunio

- Pan fyddwch yn cychwyn;
- pan fyddwch eisiau ehangu neu wneud newidiadau mawr;
- pan fydd eich amgylchiadau allanol yn newid – e.e. newidiadau polisi sy'n effeithio arnoch chi, toriadau ariannol, anghenion eich defnyddwyr yn newid;
- 3 i 5 mlynedd ar ôl i chi wneud eich cynllun strategol diwethaf.

Pwy ddylai fod yn ymwneud â'r broses gynllunio?

Yn ddelfrydol, pawb – staff, gwirfoddolwyr, aelodau o bwyllgorau rheoli. Os yw pawb yn ymwneud â'r broses, maent yn fwy tebygol o fod yn ymrwymedig i'r cynllun ac o gytuno ar flaenoriaethau gwaith. Ond mae'n bosib na fydd hyn yn ymarferol yn achos sefydliad mawr, felly dylai grŵp llai fod yn gyfrifol am y broses gynllunio. Os hynny, gwnewch yn siŵr bod y grŵp yn ymgynghori gyda phawb. Bydd ymgynghori â'ch defnyddwyr ac asiantaethau allanol hefyd yn golygu mwy o gefnogaeth i'ch sefydliad.

Mae'r broses gynllunio'n dechrau gyda'ch datganiad cenhadaeth.

Beth yw datganiad cenhadaeth?

Datganiad byr yn nodi eich pwrpas neu'ch amcanion. Yn ddelfrydol, brawddeg syml sy'n crynhoi popeth amdanoch. Dylai fod yn seiliedig ar y nodau a'r amcanion sydd yn eich dogfen lywodraethu (rhaid i ddatganiad cenhadaeth elusen gofrestredig fod yn seiliedig ar ei hamcanion elusennol ffurfiol).

Dylai eich datganiad cenhadaeth nodi:

- beth mae'ch sefydliad yn ceisio'i wneud
- pwy sy'n elwa
- sut rydych yn cyflawni eich amcanion
- sut rydych yn barnu ansawdd eich gwaith

Gall hefyd nodi'r ardal ddaearyddol yr ydych yn gweithio ynddi (hanfodol i elusennau).

Dechreuwch eich cynllun ysgrifenedig â thudalen sy'n crynhoi'r prif bwyntiau rydych am i'r darllenwyr eu cofio. Dylai hyn gynnwys eich datganiad cenhadaeth a disgrifiad byr o'ch sefydliad. Efallai hefyd yr hoffech ddweud sut a pham y ffurfiwyd eich sefydliad.

Y cam nesaf yw asesu eich sefydliad

Archwiliwch bob agwedd ar eich sefydliad yn drylwyr – lle mae ar hyn o bryd, pa mor llwyddiannus ydyw, pa mor effeithiol ydyw, ei amgylchiadau mewnol ac allanol. Defnyddiwch ddulliau dadansoddi fel SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) i wneud yr asesiad hwn mewn ffordd systematig.

Ysgrifennwch ganlyniadau eich asesiad yn rhan nesaf eich cynllun ysgrifenedig.

Trowch yn awr at eich cyfeiriad strategol

Gan ddefnyddio'r hyn rydych wedi ei ddysgu o'ch dadansoddiad, nodwch y cyfeiriad strategol ar gyfer eich sefydliad am y blynyddoedd sydd i ddod.

Dylai'ch cynllun ysgrifenedig gynnwys manylion am eich nodau tymor hir a hefyd:

- Amcanion a thargedau penodol, a ddylai fod yn realistig ac yn fesuradwy;
- sut rydych yn mynd i gyflawni'ch amcanion a'ch targedau;
- asesiad o unrhyw feysydd risg h.y. rhwystrau posibl i'ch cynllun.

Ystyriaethau ariannol

Beth yw goblygiadau ariannol eich cynllun? Dyma pryd mae angen gwneud symiau. Nodwch yn glir faint fydd cyflawni eich amcanion a'ch targedau yn ei gostio. Mae'n hanfodol eich bod yn darparu cyllideb ar gyfer cyfnod y cynllun.

Gallwch hefyd ddarparu rhagolwg llif arian a strategaeth godi arian os yw hynny'n briodol.

Monitro a gwerthuso

Pan fydd eich cynllun yn ei le bydd angen ichi adolygu ei gynnydd o bryd i'w gilydd. Gallwch wedyn addasu eich amcanion a'ch targedau os oes angen. Bydd angen ichi fonitro a gwerthuso:

Strwythurau, polisiâu a threfniadau **mewnol** – e.e. gwerthuso staff.

Agweddau **allanol** ar y gwasanaeth a ddarperir gennych – e.e. cofnodi nifer y defnyddwyr a'r ymholiadau; cael adborth am ansawdd eich gwasanaeth (annog sylwadau ac awgrymiadau, peidio ag anwybyddu cwynion).

Bydd gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol, nid yn unig i chi, ond hefyd i ddarpar arianwyr, er mwyn denu defnyddwyr a gwirfoddolwyr newydd, ac er mwyn ennyn cefnogaeth y cyhoedd.

Felly rhaid i'r cynllun ei hun ddangos sut y byddwch yn monitro ac yn adolygu eich strategaeth, a darparu amserlen ar gyfer yr adolygiad.

Mesur Gwerth Cymdeithasol

Mae Demos wedi cynhyrchu trosolwg hir ond defnyddiol ar werth cymdeithasol. Mae'n adnabod chwe elfen sydd gyda'i gilydd yn cynnwys cyfrifiad SROI (dychweliad cymdeithasol ar fuddsoddiad).

Y rhain yw:

1. Allbynnau (e.e. 200 awr o hyfforddiant i 500 o bobl)
2. Canlyniadau (e.e. 20 wedi dod o hyd i waith o ganlyniad i hyfforddiant)
3. Effaith ehangach (e.e. y swyddfa yn lleihau ynni o 5%)
4. Cyfranogiad Budd-ddeiliaid (e.e. mesur y canlyniadau drwy ymgynghori a'r budd-ddeiliaid.

5. Mesur y Pellter a Deithiwyd (e.e. cymhariaeth flynyddol o'r nifer cynyddol o bobl a gafodd waith o 12% mwy na llynedd)
6. Gwerthoedd Cyllidol (e.e. gwerth ariannol y gweithgaredd wedi cynyddu cyflogaeth ac wedi arwain at £20,000 o leihad mewn buddion lles).

Mae'r adroddiad wedyn yn cymhwyso hwn i fudiadau trydydd sector ac eraill ac yn darganfod mai ychydig yn unig sy'n gwneud y chwe elfen.

Mae'r adroddiad ar gael yma:

http://www.demos.co.uk/files/Measuring_social_value_-_web.pdf

Yn olaf...

Mae cynllun strategol yn rhywbeth y gellir ei ddefnyddio ac mae'n arwain ymlaen at y Cynllun Busnes. Defnyddir y Cynllun Busnes i ddatblygu a chyfathrebu cynllun gweithredu a fydd yn cyflawni nod strategol y sefydliad. Dylech ei adolygu a'i ddiwygio wrth i'ch amgylchiadau newid.

Mwy o wybodaeth

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Ffôn: 0845 3000 218

<https://www.gov.uk/government/organisations/charity-commission>

VolResource

www.volresource.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn

Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7LR

Elusen Gofrestredig: 1088828

Ffôn: 01248 724944

post@medrwnmon.org

Ffacs: 01248 750149

www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 10/01/2017



Ffôn: 0300 111 0124

www.wcva.org.uk